

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL

Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Côr yn perfformio** – Mi fydd y côr yn perfformio dwy gân mewn digwyddiad i ddadorchuddio plac arbennig ar safle gwreiddiol yr Ysgol Gymraeg ger Hen Swyddfa'r Urdd ar Ffordd Llanbadarn am 2 o'r gloch ar brynhawn ddydd Mawrth, Medi'r 25ain. Mi fydd y plant yn dychwelyd i'r ysgol erbyn 3.30. Cofiwch wisgo eich gwisg ysgol – esgidiau a throwsys du, crys t gwyn a chrys chwys coch.

**Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd yr Urdd** – Mae gwahoddiad i holl ddisgyblion yr ysgol mewn coch , gwyn a gwyrdd ar ddydd Mawrth, Medi'r 25ain er mwyn codi arian at weithgareddau'r Urdd yng nghylch Aberystwyth. Mi fydd hyn hefyd yn cydfynd â phenblwydd yr ysgol yn 73 oed. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £1.00 os gwelwch yn dda. (aelodau'r côr – cofiwch eich gwisg ysgol ar gyfer perfformio yn ystod y prynhawn)

**Cyfarfodydd Blynnyddol** – Cynhelir y cyfarfodydd blynnyddol yn neuadd yr ysgol ar nos Fawrth, Hydref 2ail. Croeso cynnes i bob rhiant / gwarcheidwad. Cyfarfod y Gymdeithas Rieni ac Athrawon am 6.30 a'r Llywodraethwyr am 7.30.

**Trawsgwlad Ysgolion Cylch Aberystwyth** - Mae croeso i holl ddisgyblion Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 gymryd rhan yn y trawsgwlad ar Hydref yr 18fed am 1.30 ar Gaeau'r Ficerdy – rhagor o fanylion i ddilyn.

**Diwrnod Rhwngwladol** – Mi fydd yr ysgol yn cynnal nifer o weithgareddau i hybu agweddau rhwngwladol ar ddydd Gwener, Hydref 5ed. Mi fydd pob dosbarth yn astudio gwlad arbennig. Meithrin – Cymru, Derbyn - yr Alban, Blwyddyn 1 – Sbaen, Blwyddyn 2 – Yr Eidal, Blwyddyn 3 – Mecsico, Blwyddyn 4 – Ffrainc, Blwyddyn 5 – Yr Ariannin, Blwyddyn 6 – Yr India.

- Os oes gennych unrhyw wybodaeth / profiadau a fydd yn cyfoethogi'r gweithgareddau yna cysylltwch â'r ysgol ar unwaith.
- MAE GWAHODDIAD I RIENI / GWARCHEIDWAID I YMWELED Â'R YSGOL O 2.30 YMLAEN AR Y 5ed.
- Mi fydd disgyblion Penweddig yn trefnu gweithgareddau yn y neuadd yn ystod y prynhawn.
- **Mae gwahoddiad i'r disgyblion wisgo gwisg arbennig sy'n cyfleo'r wlad – Gellir gwisgo banner fel clogyn os y dymunir!**

**Ailgylchu dillad - Bag2school.** Mae'r ysgol yn trefnu casgliad arall. Gofynnir yn garedig i chwi ddod ag unrhyw ddillad yn y bagiau perthnasol (neu unrhyw fag arall) i'r ysgol erbyn 9 o'r gloch ar ddydd Iau, Hydref 18fed. Mae'r ysgol yn derbyn cyfraniad ariannol gan y cwmni.

**Cyngerdd Nadolig** – NEWID DYDDIAD – Y dyddiad newydd yw NOS FAWRTH, Rhagfyr 11eg am 6.30 yn y Neuadd Fawr.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**  
**R C Williams, Pennaeth 20/09/2012**

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL

Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Choir Performance** – The choir will be performing two songs at the unvailing of a plac at the original site of the school at the Old Urdd Office on Llanbadarn Road at 2 o'clock on Tuesday, September 25<sup>th</sup>. Pupils will return to school by 3.30. Please remember to wear the school uniform – black shoes and trousers, white t shirt and red sweat shirt.

**Urdd Red, White and Green day** – All pupils are invited to wear red, white and green on Tuesday, September 25<sup>th</sup> in order to raise funds for the Urdd activities in the Aberystwyth area. This will also coincide with the school's 73 birthday. We kindly ask for a contribution of £1.00 please. (Choir members – please remember that you will need your school uniform for the afternoon)

**Annual General Meetings** – The AGM's will be held in the school hall on Tuesday evening, October 2<sup>nd</sup>. All parents / guardians are welcome. PTA at 6.30, Governors 7.30.

**Aberystwyth Schools Cross Country** – All pupils from Years 3, 4, 5 and 6 are invited to take part in the cross-country at 1.30 on Friday, October 18<sup>th</sup> at the Vicarage Fields – more details to follow.

**International Day** – The school will be holding a variety of activities to promote the international dimension on Friday, October 5<sup>th</sup>. Each class will be studying a different country.  
Nursery – Wales, Reception – Scotland, Year 1 – Spain, Year 2 – Italy, Year 3 – Mexico, Year 4 – France, Year 5 – Argentina, Year 6 – India

- If you have any information / experiences that will enrich the activities then please contact the school.
- PARENTS / GUARDIANS ARE INVITED TO THE SCHOOL FROM 2.30 ONWARDS ON THE 5<sup>TH</sup>.
- Penweddig pupils will be organizing activities in the hall during the afternoon.
- **Pupils are invited to wear outfits that represent the different countries – Children may wear a flag as a cloak if they wish.**

**Recycling Clothes – Bag2school** – The school is arranging another collection of clothes. We kindly ask for any contributions to be placed in the appropriate bags (or any other bag) and to be brought to school by 9 o'clock on Thursday, October 18<sup>th</sup>. The school receives a financial contribution for the clothes collected.

**Christmas Concert – CHANGE OF DATE** – The new date will be Tuesday evening, December 11<sup>th</sup> at 6.30 at the Great Hall.

**If you have any worries regarding your child's education the please contact me immediately.**

**R C Williams, Headteacher, 20/09/12**